# HUFENFA DE ARFON CYF

# DATGANIAD AMGYLCHEDDOL

Sefydlwyd Hufenfa De Arfon (HDA) yn 1938 gan grŵp o ffermwyr lleol ac erbyn heddiw mae'n Gwmni Ffermwyr Llaeth Cydweithredol mwyaf Cymru gyda dros 160 o aelodau. Mae wedi ei lleoli ym Mhenrhyn Llŷn yng Ngogledd Orllewin Cymru, ardal o harddwch naturiol. HDA yw calon ei chymuned ac mae'n cyflogi oddeutu 200 o staff yn llawn amser, pobl sy'n byw yn yr ardal leol.

Mae ein haelodau wedi eu lleoli yng Ngogledd Cymru, Canolbarth Cymru a Cheredigion sy'n cyflenwi 197 miliwn litr o laeth o safon arbennig diolch i'w gwartheg sy'n pori ar diroedd ffrwythlon Cymru. Mae'r llaeth lleol Cymreig yma, ynghyd â sgiliau a'r wybodaeth a gasglwyd dros genedlaethau, yn ein caniatáu i gynhyrchu caws Cymreig a menyn Cymreig o'r safon uchaf ac maent wedi ennill nifer fawr o wobrau. Cyflenwir ein cawsiau amrywiol a menyn i archfarchnadoedd mawr ar draws Prydain ac i storfeydd rhyngwladol.

Rydym yn falch iawn o'n gwreiddiau Cymreig, cymaint felly ein bod wedi cadw ein polisi i brosesu llaeth Cymreig yn unig. Mae ein pecynnau yn ddwyieithog ac mae gennyn ein brand caws llwyddiannus ein hunain, Dragon. Mae ein polisi iaith yn cael ei gydnabod gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

Mae ein ffermwyr yn cydweithio a chyda chynrychiolwyr ar Fwrdd Cyfarwyddwyr y Cwmni; maent yn cael eu dweud ac yn cyfrannu at ddyfodol a strategaeth y Cwmni. Fel aelodau maent yn cyflenwi llaeth, ond hwy hefyd yw perchnogion y Cwmni.

**Gweledigaeth**
Mae HDA Cyf yn ceisio rhoi y gwerth gorau posib i laeth ei haelodau drwy brosesu a marchnata caws brand a label yr archfarchnad ac o ganlyniad HDA yw dewis cyntaf ffermwyr Cymreig i brosesu eu llaeth.

**Bwriad**
Bod yn gynhyrchwr caws gwerth uwch sy'n canolbwyntio ar werthu amrywiaeth o gynhyrchion o safon yn uniongyrchol i'r archfarchnadoedd mawr, gwasanaethau bwyd, proseswyr bwyd a marchnadoedd allforio drwy bwysleisio hanes a hyblygrwydd.

Yn ddiweddar mae'r Cwmni yn datblygu'r safle gyda chymorth grantiau Llywodraeth Cymru ac o ganlyniad i hyn bydd gallu cynhyrchiant caws yn cynyddu i 21,000 tunnell. Mae HDA yn ymroddedig i roi sylw i effeithiau ei phrosesau ar yr amgylchedd ac mae wedi cyflawni Safon Amgylcheddol Y Ddraig Werdd lefel 2 ers 2014 ac yn anelu at lefel 4 yn 2021-22. Fel rhan o'r datblygiadau i'r dyfodol bydd HDA hefyd yn parhau i fuddsoddi mewn offer mwy effeithlon, yn ei hadeiladau, ei fflyd cerbydau a phrosiectau ynni adnewyddadwy er mwyn gostwng ei ôl troed carbon.

**Gostwng ein Hôl Troed Carbon**
Rydym yn ceisio gwella ein hôl troed carbon yn barhaus trwy:

- Fesur ôl troed carbon HDA Cyf. yn flynyddol gyda'r nod o'i leihau pob blwyddyn.
- Fesur ein defnydd o ynni gyferbyn â litrau trwygyrch llaeth y ffatri.
- Cydweithio gyda chyflenwyr i edrych ar ffyrdd i arbed ar ddeunydd pacio a phan yn bosib defnyddio mwy o ddeunydd pacio ellir ei ailgylchu.

- Monitro gwastraff deunydd pacio ac ailgylchu yn unol â rhwymedigaethau gwastraff cysylltiedig ag aelodaeth Ecosurety (Recycle Pak gynt).
- Buddsoddi yn barhaus mewn cerbydau casglu llaeth gydag injan Euro 6 newydd sy’n fwy effeithlon i’w rhedeg ac sydd hefyd yn gollwng llai o lygredd.
- Monitro’r llwythi llaeth a gesglir yn barhaus er mwyn gwneud y defnydd gorau o effeithlonrwydd casglu a gwneud yn siŵr bod pob tancer yn defnyddio’r tanc llaeth i lawn ei chynhwysedd.
- Pan fo’n bosib trefnu cylchau casglu llaeth i leihau’r pellter teithio.

**Cynaladwyedd**
Mae HDA Cyf yn ymrwymedig i hyrwyddo cynaladwyedd. Mae gofalu am yr amgylchedd a hyrwyddo agenda cynaladwyedd ehangach yn annatod i’n gweithgareddau proffesiynol a rheolaeth o’r sefydliad. Rydym yn anelu i ddilyn a hyrwyddo ymarferion cynaladwyedd da i ostwng effeithiau ein gweithgareddau ar yr amgylchedd ac i gynorthwyo ein haelodau, cwsmeriaid a chyflenwyr i wneud hynny hefyd.

- Rydym yn ailddefnyddio neu’n ailgylchu gwastraff swyddfa yn cynnwys papur, cyflenwadau cyfrifiadurol ac offer segur ac mae biniau ailgylchu o fewn adeiladau’r swyddfeydd a’r cantîn.
- Rydym yn ymdrechu i ostwng defnydd ynni y swyddfa trwy brynu offer sy’n effeithlon o ran egni.
- Rydym yn ceisio lleihau’r defnydd o bapur a deunyddiau eraill y swyddfa, er enghraifft printio ar ddwy ochr y papur, anfon dogfennau yn electronig pan fo’n bosib.
- Mae HDA wedi ymuno gyda WRAP, sef map gostwng gwastraff bwyd. Mae hwn yn anelu i leihau gwastraff bwyd gymaint â phosibl.
- Rydym yn darparu peiriannau dŵr yfed ar gyfer staff er mwyn osgoi defnyddio poteli plastig.
- Rydym yn cefnogi nifer o ddigwyddiadau elusennol yn yr ardal pob blwyddyn.

**Effeithiau Amgylcheddol 2024-25**

- Gollyngwyd 6,837.40 tunnell o Nwy Tŷ Gwydr sgôp 1 yn uniongyrchol o ganlyniad i weithgareddau’r Cwmni (disel/olew boeleri/nwyon o oergelloedd) a 1,777.15 tunnell o Nwy Tŷ Gwydr sgôp 2 yn anuniongyrchol o ganlyniad i ddefnyddio trydan a brynwyd.

- Defnyddiwyd 1,737,476 litr o olew yn y boeleri i brosesu 176,876,601 litr o laeth sy’n cyfartalu â defnyddio 0.010 litr o olew i bob litr o laeth a broseswyd.

- Defnyddiwyd 8,582,219 KWh o drydan i brosesu 176,876,601 litr o laeth sy’n cyfartalu â defnyddio 0.05 KWh i bob litr o laeth a broseswyd.

- Defnyddiwyd 141,844 $M^3$ o ddŵr i brosesu 176,876,601 litr o laeth sy’n cyfartalu â defnyddio 0.80 litr o ddŵr i bob litr o laeth a broseswyd.

- Ailgylchwyd 272.07 tunnell o wastraff o weithgareddau dydd i ddydd yn ystod 2024. Gwaredwyd 144.80 tunnell fel gwastraff cyffredinol sydd yn mynd yn syth i’w losgi.

- Roedd canran gwastraff bwyd yr holl gynnyrch a gynhyrchwyd ac a baciwyd yn ystod 2024-25 yn yr adran bacio yn 0.002% o gymharu â 0.0027% y flwyddyn flaenorol, a 0.00045% yn yr adran cynhyrchu caws o gymharu â 0.0005% y flwyddyn flaenorol.

Mae gwelliannau Amgylcheddol HDA yn cynnwys:

- Diweddariadau ynni ac amgylcheddol rheolaidd i staff. Gwneir adroddiad misol a'i rannu ar fyrddau neges a chylchlythyrau'r Cwmni.
- Gosodwyd bylbiau golau LED yn y storfa oer. Bydd pob golau newydd yn cael ei newid i LED wrth fynd ymlaen.
- Gosod is-fesuryddion i fonitro defnydd trydan, tanwydd boeleri a dŵr yn barhaus.
- Didoli mathau gwastraff yn y man cychwyn gan ganiatáu ni i ailgylchu ein prif ffrwd gwastraff:
    - Gwastraff Cyffredinol
    - Cardbord
    - Plastig
    - Pren
    - Gwastraff Bwyd
    - Ailgylchu Olew
    - WEEE a Gwastraff Peryglus
    - Sborion Metel

Diweddarwyd y datganiad yma yn Mai 2024 a bydd yn cael ei ddiweddaru yn flynyddol ac ar gael i unrhyw rai sydd â diddordeb. Bydd y datganiad yn cael ei wirio yn allanol gan *Groundwork Wales* fel rhan o ailasesiadau cychwynnol archwiliad Y Ddraig Werdd Lefel 4.

Elwyn Jones
Rheolwr Cydymffurfio/Ysgrifennydd y Cwmni

**Dilysu Datganiad Amgylcheddol**

Mae'r wybodaeth sydd yn y Datganiad Amgylcheddol wedi cael ei brofi a'i ddilysu gan archwilydd Y Ddraig Werdd. Darganfu ei fod, o fewn cwmpas diffiniedig y Cwmni, yn asesiad teg a chywir o weithgareddau'r Cwmni a'i pherfformiad amgylcheddol dros y flwyddyn olaf.

Prif Archwilydd: Robert Williams

Sefydliad Archwilio: Groundwork Wales

Dyddiad archwiliad: 5ed, 6ed a 7ed Tachwedd 2025

Dilys tan: 18ed Tachwedd 2026

Nid yw dilysu'r Adroddiad Amgylcheddol yn cadarnhau ardystiad o System Rheoli Amgylcheddol y Cwmni i Safon Y Ddraig Werdd. Ceir cadarnhad o'r ardystiad wrth geisio copi o dystysgrif Draig Werdd y Cwmni neu trwy ymweld â gwefan Y Ddraig Werdd www.greendragonems.com.